

**Cyfarfod Tasglu'r Pryfed Peillio  
Y Drenewydd  
24 Tachwedd 2014**

<b>Mynychwyr</b>	<b>Ymddiheuriadau</b>
Andrew Osborne – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Alan Michie – CDG Sir Fynwy
Claudia Howard – Partneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru (PLIGC)	Alison Heal – Cyngor Sir Ceredigion
Colin Cheesman – Plantlife	Angie Polkey
David Thomas – Polisi Plaladdwyr LIC	Ann Jones – NFWI
Francis Gellatly – APHA	Belinda Wyatt-Lister – Polisi Garddwriaeth LIC
Gemma Light – Polisi Bioamrywiaeth LIC	Bleddyn Lake – Cyfeillion y Ddaear Cymru
Helen Ovens – Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)	Caryn Le Roux – Polisi Bioamrywiaeth LIC
James Byrne – Ymddiriedolaethau Natur Cymru	Claire Dinham – Buglife
Jan Miller – Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Cymru	Deborah Procter – Y Cydbwyllgor Gwarchod Natur (JNCC)
Jane Rees – Prosiect Ymylon Ffyrdd Ynys Môn	John Ridgwell – Man Gwyrdd Cymru
Jenny Shaw – WBKA	Katherine Baldock – IPI
John Bowles – WBKA	Marc Carlton – Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt
John Byrne – Rheoli Rhwydwaith LIC	Maria Golightly – Gerddi Kew
John Watkins – Arweinydd ar Bryfed Peillio LIC	Natasha De Vere – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Julian Rees – Pollen8 Cymru	Rachel Lewis-Davies – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Mike Howe – CNC	Rachel Palmer – Cadwch Gymru'n Daclus
Nicola Bradbear – <i>Bees for Development</i>	Richard Watkins – Defra
Rob Owen – Cadwch Gymru'n Daclus	Sarah Slater – Cyngor Sir y Fflint
Russel Hobson – Gwarchod Glöynnod Byw Cymru	Sinead Lynch – <i>Bumblebee Conservation Trust</i>
Steve Rose – BIBBA	

### Y Diweddraf

#### **Plaladdwyr** – (David Thomas, Tîm Polisi Plaladdwyr LIC)

Y polisi yw lleihau cymaint ag y bo modd ar y defnydd a wneir o blaladdwyr yng Nghymru, mewn ymgynghoriad â'r Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegion. Bydd 'Hawliau Teidiau' yn cael eu dileu erbyn diwedd 2015, a bydd y canlynol yn cael eu rhoi ar waith:

- Hyfforddiant trwy gyfrwng Sefydliad y Ddinas a'r Urddau a Lantra
- Profi cyfarpar
- Bydd Gr p Glaswelltiroedd a Chwilota'n cael ei sefydlu
- 'Ap' symudol ar gyfer ffermwyr

#### *Pwyntiau a godwyd:*

- mae defnyddio gwrtaithe yn fwy o broblem i bryfed peillio
- mae rhedyn yn rhan bwysig iawn o'r amgylchedd, h.y. cynefinoedd brithwaith

## Y Prosiect Cywain – (Jenny Shaw WBKA)

Bydd y prosiect ar waith rhwng Tachwedd 2014 – Mai 2015, a cheir dwy ran iddo:

- Gweithio ar y cyd â Menter a Busnes, gan gynnig cyngor a gwybodaeth i dirfeddianwyr a ffermwyr ar ffurf taflen yn sôn am gynhyrchu mêl.
- Cynhyrchu cymorth dysgu ar ffurf fideo ar gyfer ysgolion cynradd, gyda'r bwriad o'i gyflwyno ar draws Cymru.

## Amaethyddiaeth

Awgrymwyd y dylid cael sylw ar y BBC / S4C / rhaglen Ffermio er mwyn ymgysylltu â'r gymuned amaethyddol.

*Pwyntiau a godwyd:*

- Pam na chafodd argymhellion y Tasglu Glastir eu hymgorffori?
- Mae Ffermwyr angen cymhelliad i gadw pryfed peillio ar eu tir

## Lleiniau Ymyl Ffordd

Polisi Lleiniau Ymyl Ffordd Blodau Gwylt (John Byrne, Tîm Rheoli Rhwydwaith LIC):

- Cyhoeddodd Edwina Hart raglen 5 mlynedd ym mis Mehefin 2014 ar gyfer ariannu 10 o brosiectau bob blwyddyn
- Canlyniadau disgwylidig: Creu a Gwella; Cynnal; Gwarchod

Dylai'r Tasglu gyfrannu at y fenter hon ar ffurf rôl graffu.

Seminarau Lleiniau Ymyl Ffordd – angen mynd ar eu trywydd

**'Grow Wild'** – (Maria Golightly – Gerddi Kew)

- Erbyn hyn gellir gwneud cais am becynnau hadau rhad ac am ddim ar gyfer prosiectau cymunedol.
- Mae £120,000 ar gael ar gyfer prosiect blodau brodorol yng Nghymru. Dylid anfon ymholiadau at Maria.

## Y Gronfa Natur

Rhoddodd Rob Owen y diweddaraf i'r cyfarfod am brosiect 'Buzz Naturiol' Cadwch Gymru'n Daclus mewn partneriaeth â'r *Horticultural Trade Association* a Man Gwyrdd Cymru.

Rhoddodd Andrew Osborne y diweddaraf am y prosiect Peillwyr am Oes yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

*Pwyntiau a godwyd:*

- Awgrymwyd y dylid defnyddio technoleg SGDD i fapio llwyddiant y Gronfa Natur, a'r hyn a ddysgwyd
- Pa ddulliau monitro a fydd yn cael eu rhoi ar waith? Sut ydym yn mynd i ddysgu?

## Y Cyfarfod Nesaf

- James Byrne fydd y Cadeirydd, gyda chymorth gan Gemma. Awgrymwyd Chwefror/Mawrth.
- Angen penderfynu ar y lleoliad. A wnewch chi anfon awgrymiadau ar gyfer lleoliadau a allai fod o ddiddordeb.

- Siaradwyr posibl – Natasha De Vere (Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru), Pete Frost (CNC), Caryn Le Roux (Monitro)

(Camau gweithredu isod)

	<b>Camau gweithredu</b>	<b>Arweinydd</b>	<b>Partneriaid</b>
<b>1</b>	<b>Aelodau'r Tasglu</b> Gofyn i gynrychiolwyr o'r canlynol fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol i drafod cydweithio: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gr p Cyngori ar Ffermio a Bywyd Gwylt</li> <li>• Cangen Glastir LIC</li> <li>• Menter a Busnes / Cyswllt Ffermio</li> <li>• Hyrwyddwyr o fewn y gymuned ffermio</li> <li>• CDG</li> </ul>	Gemma	John Watkins
<b>2</b>	<b>Plaladdwyr</b> – Dylid dosbarthu gwybodaeth am Reoli Plâu yn Integredig	Dave Thomas	Kathleen Carroll
<b>3</b>	<b>Menter a Busnes</b> – dylai gynnwys 'cefnogwyd gan Undebau'r Ffermwyr' ar daflenni pryfed peillio (cysylltwch â Haf)	Gemma	Jenny
<b>4</b>	<b>Glastir</b> – mynd ar drywydd y fenter grantiau bach a dosbarthu'r manylion i'r tasglu fel y gellir craffu arnynt	John Watkins	Gemma
<b>5</b>	<b>Lleiniau Ymyl Ffordd</b> – mynd ar drywydd y maes yn dilyn y Seminarau	John / Caryn ??	Gemma